BBC TEN PIECES

**MONTGOMERY VARIATIONS GAN MARGARET BONDS**

CYNLLUN GWERSI I'R DOSBARTH CYNRADD gan Andrea Price

**GWYLIO'R FFILM | GWRANDO AR Y SAIN**

Ar gyfer:

- Cwricwlwm Cenedlaethol **LLOEGR** (CA2)
- Cwricwlwm i **GYMRU**: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)
- Cwricwlwm Rhagoriaeth **YR ALBAN** (Ail Lefel)
- Cwricwlwm Cynradd **GOGLEDD IWERDDON** (CA2)

*Cefndir*

**Y cyfansoddwr:** **MARGARET BONDS**

- Cafodd Margaret Bonds ei hannog i astudio cerddoriaeth o oedran ifanc. Roedd ei mam yn gerddor, ac roedd ei thad yn feddyg ac yn actifydd gwleidyddol.
- Un o'i hathrawon oedd y cyfansoddwr **Florence Price,** a ddaeth yn ffrind da i Margaret Bonds yn ddiweddarach.
- Ym 1933, yn ddim ond 20 mlwydd oed, hi oedd yr unawdydd du cyntaf i berfformio gyda Cherddorfa Symffoni Chicago.
- Roedd Margaret yn byw yn Unol Daleithiau America trwy gyfnod o ymgyrchu dros gyfiawnder cymdeithasol. Yn ogystal â'i cherddoriaeth, caiff ei chofio heddiw am ei hymrwymiad i gefnogi gyrfaoedd artistiaid Du.
- Oherwydd y cyfyngiadau ar fenywod croenliw mewn hawlfraint a gwaith recordio, roedd cred bod y rhan fwyaf o'i cherddoriaeth wedi'i cholli. Diolch byth, yn 2013, cafwyd hyd i sawl blwch o lawysgrifau.

**Y gerddoriaeth:** **MONTGOMERY VARIATIONS**

- Mae 'March' a 'Dawn' yn ddau symudiad sy'n ffurfio rhannau o ddarn mwy o gerddoriaeth, *Montgomery Variations,* a ysgrifennwyd ym 1964. Mae gan y darn saith symudiad i gyd ac

© BBC 2024

mae'n adrodd stori am gydymdrech, cryfder mewn cymuned a brwydr dros gydraddoldeb mewn cymdeithas.

- Deallir bod Margaret Bonds wedi dechrau ysgrifennu'r darn ar ôl ymweliad â Montgomery, Alabama ym 1963. Dyma lle bu safiad Rosa Parks yn sbardun i Foicot Bysus Montgomery ac mae'n dal i fod yn un o'r digwyddiadau mwyaf cofiadwy yn hanes hawliau sifil.
- Fel rhan o'r boicot, cerddodd aelodau'r gymuned Ddu i'r gwaith yn hytrach na mynd ar fws. Mae'r symudiad torfol ar droed yn cael ei gyfleu yn y symudiad 'March'.
- Mae'r symudiad 'Dawn' yn cyfeirio at sylweddoliad nifer o'r taleithiau deheuol yn America, gan gynnwys Alabama, fod newidiadau mewn cymdeithas yn dod.

*Canlyniadau dysgu*

*Bydd dysgwyr yn:*

- Ymgysylltu â darn o gerddoriaeth gerddorfaol trwy wrando, gwylio, symud a thrafod
- Creu eu darnau eu hunain o gerddoriaeth gan ddefnyddio lleisiau ac offerynnau
- Perfformio fel ensemble
- Archwilio iaith gerddorol ac ymgysylltu â nodiant cerddorol y Gorllewin

*Adnoddau sydd eu hangen:*

- Lle addas ar gyfer symud; naill ai mewn ystafell ddosbarth neu mewn gofod mwy
- Offerynnau traw a di-draw yn yr ystafell ddosbarth

*Rhestr wirio'r cwricwlwm*

**Cwricwlwm Cenedlaethol LLOEGR** (CA2)

- Chwarae a pherfformio fel unawdydd ac mewn ensemble, gan ddefnyddio'u lleisiau a chwarae offerynnau cerdd gyda chywirdeb, rhugldeb, rheolaeth a mynegiant cynyddol
- Chwarae'n fyrfyfyr a chyfansoddi cerddoriaeth at amrywiaeth o ddibenion gan ddefnyddio dimensiynau cydberthynol cerddoriaeth
- Gwerthfawrogi a deall cerddoriaeth o ansawdd uchel, yn fyw ac ar record, o wahanol draddodiadau
- Defnyddio a deall hen nodiant a nodiannau cerddorol eraill.

**Cwricwlwm Rhagoriaeth YR ALBAN (Ail Lefel)**

- Adnabod amrywiaeth o arddulliau cerddorol a gallu enwi rhai o'r prif offerynnau yn y genre
- Defnyddio llais, offerynnau a thechnoleg i greu cerddoriaeth, gan arbrofi gyda ansawdd.
- Mynegi a chyfleu syniadau, meddyliau a theimladau drwy weithgareddau cerddorol.
- Perfformio ar offerynnau, yn unigol neu fel rhan o grŵp, i gyfleu naws a chymeriad darn o gerddoriaeth
- Esbonio, gyda rhesymau cefnogol, beth sy'n gweithio'n dda a beth y gellid ei wella yn eu gwaith eu hunain ac eraill, gan ddefnyddio geirfa gerddorol briodol.

© BBC 2024

**Cwricwlwm i GYMRU: Y Celfyddydau Mynegiannol (Cam Dilyniant 3)**

- Rwy'n gallu archwilio sut y gall gwaith creadigol gynrychioli, cofnodi, rhannu a dathlu hunaniaethau personol, cymdeithasol a diwylliannol.
- Rwy'n gallu archwilio a disgrifio sut mae artistiaid a gwaith creadigol yn cyfleu naws, teimladau a syniadau a'r effaith maen nhw'n ei chael ar gynulleidfa.
- Rwy'n gallu rhoi ac ystyried adborth adeiladol am fy ngwaith creadigol fy hun a gwaith pobl eraill, gan fyfyrio arno a'i wella yn ôl y gofyn.

**Cwricwlwm Cynradd GOGLEDD IWERDDON (CA2)**

- Canu a pherfformio gydag offerynnau syml o'r cof, o'r glust neu o nodiant i ddatblygu sgiliau lleisiol ac offerynnol.
- Gweithio'n greadigol gyda sain drwy greu straeon, lluniau, patrymau, sgyrsiau a chyfeiliannau cerddorol a thrwy ymchwilio i ffyrdd o gadw'r gerddoriaeth y maen nhw wedi'i chreu

*Y gwersi yn gryno*

Mae'r cynllun gwaith hwn wedi'i drefnu dros bedair gwers. Mae croeso i chi ei addasu i weddu i'ch plant a'r amser/adnoddau sydd gennych ar gael.

Am arweiniad ar nodiant, gweler yma.

***GWERS 1:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Gweithgareddau gwrando gweithredol a thrafod<br>Gweithgareddau cerddoriaeth a symud |
| Bwriad dysgu: | Archwilio'r gerddoriaeth drwy wrando a symud<br>Deall a theimlo'r gwahaniaeth rhwng amser 3/4 a 4/4<br>Dod yn gyfarwydd â chwythbrennau |

***GWERS 2:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Byrfyfyrio a chyfansoddi cân ar gyfer protest |
| Bwriad dysgu: | Dysgu alaw'r 'March' a'i defnyddio fel man cychwyn eich cân brotest eich hun.<br>Arbrofi gyda'r raddfa bentatonig gan ddefnyddio lleisiau a/neu offerynnau taro traw yn yr ystafell ddosbarth |

***GWERS 3:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Creu darn ensemble wedi'i ysbrydoli gan 'Dawn' |

© BBC 2024

| | |
|---|---|
| Bwriad dysgu: | Datblygu eich gallu i berfformio fel rhan o grŵp<br>Archwilio gwead trwy gyfuno haenau gyda'i gilydd |

***GWERS 4:***

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau: | Straeon cerddorol – edrych yn ôl a symud ymlaen |
| Bwriad dysgu: | Gweithgareddau gwrando gweithredol a thrafod<br>Cael mewnwelediad dyfnach i'r gerddoriaeth a'r stori |

© BBC 2024

# GWERS 1

Gwylio, gwrando a symud!

*Bwriad dysgu*

- Archwilio'r gerddoriaeth drwy wrando a symud
- Dod yn gyfarwydd â chwythbrennau
- Deall a theimlo'r gwahaniaeth rhwng arwyddion amser 3/4 a 4/4

1. **Paratoi eich dosbarth**
   Esboniwch i'r dosbarth eich bod yn mynd i ddechrau prosiect cerddoriaeth sy'n canolbwyntio ar ddarn pwysig o gerddoriaeth gan Margaret Bonds, un o'r cyfansoddwyr a pherfformwyr Du cyntaf i ennill cydnabyddiaeth yn yr Unol Daleithiau. Enw'r darn yw *Montgomery Variations*, ac rydyn ni'n mynd i wrando ar ddau amrywiad: 'March' a 'Dawn', er mwyn darganfod beth sy'n gwneud y gerddoriaeth hon mor bwysig.

2. **Gwyliwch y ffilm** a chael trafodaeth amdani. Gallai hyn gyd-fynd yn effeithiol â Mis Hanes Pobl Ddu neu ystod o bynciau ABCh am y gyfraith, hawliau a chyfrifoldebau.

3. **Gwyliwch y perfformiad cerddorfaol llawn** a siaradwch am yr offerynnau rydych chi wedi'u gweld. Ceisiwch ganfod y chwythbrennau. Maen nhw'n bwysig iawn yn y gwaith hwn, gan mai ganddyn nhw mae'r alaw yn aml. Gwyliwch am y basŵn a'r cor anglais* yn y 'March', yna'r ffliwt, yr obo, a'r clarinét yn 'Dawn'. Sut gallwn ni wahaniaethu rhwng yr offerynnau hyn?

   **mae'r cor anglais (ynganiad côr ONG-gle) yn debyg i obo, ond yn fwy ac ychydig yn is o ran traw.*

4. **Gweithgaredd archwilio symudiadau – deall arwyddion amser 3/4 a 4/4**
   Gellir gwneud y gweithgaredd hwn mewn ystafell ddosbarth heb lawer o le, neu mewn lle mwy fel neuadd yr ysgol. Rhowch gynnig ar rai o'r symudiadau a awgrymir i gyd-fynd â'r gerddoriaeth. Gallwch deilwra'r gweithgaredd i anghenion eich dosbarth ac i'r gofod sydd ar gael. Os oes gennych amser, ceisiwch archwilio 'March' a 'Dawn' ill dau, naill ai yn yr un sesiwn neu mewn sesiynau gwahanol. Mae cyfarwyddiadau llawn ar gyfer symudiadau a awgrymir isod.

5. **Myfyriwch ar y gweithgaredd symud** drwy wrando ar glip byr o bob amrywiad a thrafod a ydi'r gerddoriaeth mewn amser 3/4 neu 4/4. Gallech droi hyn yn gwis!

6. **Sesiwn gloi ychwanegol – y chwythbrennau eto**
   Gofynnwch i bob plentyn ddewis un chwythbren (os ydi amser/adnoddau'n caniatáu, gallent ysgrifennu ei enw neu hyd yn oed dynnu llun ohono). Gwrandewch eto ar y

© BBC 2024

gerddoriaeth. Dylent ddal eu hofferyn i fyny (neu godi eu llaw, neu sefyll) pan fydd eu hofferyn nhw i'w weld/glywed.

Symudiadau yr awgrymir eu gwneud yn ystod 'March' (amser 4/4):

**Symud gyda'ch traed:**

Martsiwch mewn amser gyda'r gerddoriaeth. Martsiwch yn drwm eich traed. Ceisiwch deimlo pwysau'r ddaear trwy eich sodlau. Wrth fartsio, cyfrifwch "1, 2, 3, 4" ar bob curiad. Ceisiwch wneud y cam trymaf ar guriad 1 pob bar.

Os ydych chi'n martsio yn y fan a'r lle, trowch i wynebu cyfeiriad gwahanol bob 8 curiad (cyfri i 8 ac yna newid cyfeiriad). Os oes pedwar curiad mewn bar, faint o fariau ydi 8 curiad?

Os ydych chi'n martsio o gwmpas yr ystafell mewn lle mwy, newidiwch gyfeiriad bob 8 curiad (cyfri i 8 ac yna newid cyfeiriad). Gwyliwch rhag bwrw i mewn i neb arall!


**Symud gyda'ch dwylo:**

Dangoswch guriadau cryf a gwan y gerddoriaeth trwy berfformio'r patrwm hwn:

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 2 | 3 | 4 | **1** | 2 | 3 | 4 |
| **gliniau** | clap | clap | clap | **brest** | clap | clap | clap |

**Cymryd yr awenau: allwch chi fod yn arweinydd?**

Tynnwch lun cwch hwylio yn yr awyr mewn amser gyda'r gerddoriaeth. Defnyddiwch un llaw neu'r ddwy:





© BBC 2024

Symudiadau yr awgrymir eu gwneud yn ystod 'Dawn' (amser 3/4):

**Symud gyda'ch traed:**

Crëwch "sgwâr camu" gyda'ch traed. Ceisiwch gerdded ar flaenau'ch traed i ddangos bod y gerddoriaeth hon yn urddasol a gobeithiol.




| chwith | dde | chwith | dde | chwith | dde |
|---|---|---|---|---|---|
| **A** | B | B | **C** | D | D |


**Symud gyda'ch dwylo:**

Dangoswch guriadau cryf a gwan y gerddoriaeth trwy berfformio'r patrwm hwn. Ceisiwch gadw'r breichiau i symud (gan wneud cylchoedd ysgafn).


| **1** | 2 | 3 | **1** | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| **gliniau** | clap | clic | **gliniau** | clap | clic |

**Cymryd yr awenau: Allwch chi fod yn arweinydd?**

Tynnwch lun trionglau yn yr awyr mewn amser â'r gerddoriaeth. Defnyddiwch un llaw neu'r ddwy:




llaw chwith




llaw dde

© BBC 2024

**7. Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw arwydd amser?** | Nifer y curiadau mewn bar |
| **Rhowch enghraifft o arwydd amser** | 3/4, 4/4 |
| **Beth yw arweinydd?** | Rhywun sy’n rheoli’r gerddoriaeth |
| **Rhowch enghreifftiau o chwythbrennau?** | Ffliwt, obo, clarinét, basŵn, cor anglais |
| **Beth yw enwau’r ddau amrywiad y buon ni’n gwrando arnyn nhw?** | ‘March’ a ‘Dawn’ |

© BBC 2024

# GWERS 2

Creu cân o brotest


| | |
|---|---|
| Bwriad dysgu: | Dysgu alaw'r 'March' a'i defnyddio fel man cychwyn i'ch cân brotest eich hun.<br>Arbrofi gyda'r raddfa bentatonig gan ddefnyddio lleisiau a/neu offerynnau taro traw yn yr ystafell ddosbarth |

1. **Cynheswch ac adolygwch** drwy wrando ar y 'March' a pherfformio rhai o'r symudiadau o'r wers flaenorol.

2. **Esboniwch** eich bod yn mynd i ddefnyddio dechreuad yr alaw o'r 'March' i greu eich cân brotest eich hun. Dysgwch y frawddeg fer hon i'r dosbarth, wedyn ceisiwch gyd-ganu bob tro y daw i mewn. Gellir gwneud hyn hefyd tra'n martsio yn y fan a'r lle!





3. **Arbrofwch gyda'r alaw hon** trwy ychwanegu eich diweddglo eich hun! Gellir adrodd neu ganu hyn, neu ei berfformio ar offerynnau taro traw yn yr ystafell ddosbarth.





a) Canwch yr hanner cyntaf a chlapio ail hanner y patrwm, gorau oll tra'n martsio neu gadw amser gyda'ch traed. Bydd hyn yn helpu pawb i ddysgu'r rhythm.

b) Ar gyfer fersiwn i'w adrodd, dewiswch 6 sillaf sy'n cyd-fynd â phwnc y brotest, ac adroddwch/gwaeddwch nhw. Dyma enghraifft i geisio'i hadrodd/gweiddi:




c) Ar gyfer fersiwn i'w ganu neu ei chwarae, dewiswch drawiau o'r raddfa bentatonig: C, **D**, F, G, A. Y nodyn D ddylai fod yr un a ddefnyddir amlaf. Dyma enghraifft i chi roi cynnig ar ei chanu a/neu ei chwarae:




© BBC 2024

4. **Mewn parau, grwpiau*, neu fel dosbarth cyfan****, crëwch eich cân brotest eich hun trwy gyfuno cymalau yn seiliedig ar y mannau cychwyn uchod. Rhowch amser i'r grwpiau ddatblygu eu syniadau ac ymarfer. Hwyrach y bydd yn well gan blant sy'n llai hyderus wrth siarad/darllen fynegi eu hunain gan ddefnyddio offerynnau taro traw yr ystafell ddosbarth. Hwyrach y bydd plant sy'n llai hyderus wrth ganu yn hapusach yn siarad/gweiddi. Hwyrach y bydd y plant mwyaf hyderus yn dewis canu a pherfformio eu cerddoriaeth ar yr un pryd! Bydd y perfformiad yn fwyaf llwyddiannus os oes gan y gerddoriaeth ymdeimlad cryf o guriad. Anogwch y plant i fartsio mewn amser wrth ganu/siarad/chwarae offeryn lle bo hynny'n bosibl. Mae yna [daflen waith ategol] hefyd ar gyfer plant a fyddai'n hapusach yn sgrifennu neu'n nodi eu syniadau.

   **Mae niferoedd eilrif o frawddegau yn fwy boddhaol yn gerddorol, felly mae parau, grwpiau o bedwar, wyth ac ati yn ddelfrydol os yw pob plentyn am gymryd perchnogaeth o'u brawddeg eu hunain.*

   ***Os ydych chi'n gweithio ar hyn fel gweithgaredd dosbarth cyfan, byddai galw ac ateb yn gweithio'n dda, gyda'r dosbarth cyfan yn canu "We stand up together", a phlant unigol yn cymryd tro i ganu/siarad/chwarae ymateb.*

5. **Dewch â'r dosbarth yn ôl at ei gilydd** a gwrandewch ar waith eich gilydd. Gofynnwch i weddill y dosbarth wrando'n ofalus a rhoi adborth. Oedd y geiriau'n ffitio'n dda efo'r curiad? A lwyddodd unrhyw un i fartsio tra'n siarad/canu/chwarae? Oedd y perfformiad yn swnio'n gryf a balch? Beth allwch chi ei ddweud i helpu'r grŵp?

6. **Adolygwch ac ymlacio** drwy [wrando ar y 'March' eto]. Gofynnwch i'r dosbarth wrando'n astud am eu halaw 'nhw', a gweld a allan nhw ddweud pa offeryn sy'n chwarae bob tro maen nhw'n ei chlywed.

7. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw brawddeg gerddorol?** | Grŵp o fariau sy'n ffurfio brawddeg gerddorol, fel arfer 2 neu 4 bar. |
| **Beth yw'r alaw?** | Y dôn mewn darn o gerddoriaeth |
| **Beth yw graddfa?** | Grŵp o nodau wedi'u trefnu i esgyn neu ddisgyn fesul gris o ran traw yw graddfa. |
| **Faint o nodau sydd mewn graddfa bentatonig?** | Pump |

© BBC 2024

# GWERS 3

Creu darn ensemble wedi'i ysbrydoli gan 'Dawn'

| | |
|---|---|
| Bwriad dysgu: | Datblygu eich gallu i berfformio fel rhan o grŵp<br>Archwilio gwead trwy gyfuno haenau gyda'i gilydd |

1. **Cynheswch ac adolygwch** drwy wrando ar 'Dawn' a pherfformio rhai o'r symudiadau o wers 1. Canolbwyntiwch ar deimlo'r amser 3/4.

2. **Esboniwch** eich bod yn mynd i ddefnyddio gwead 'Dawn' i greu eich darnau eich hun mewn grwpiau, gan ddefnyddio offerynnau taro traw a di-draw yr ystafell ddosbarth. Mae gan y gerddoriaeth dair haen o wead; yr alaw, y bas, a'r trawsacenion. Bydd y gweithgaredd hwn yn gweithio'n dda hefyd gydag offerynnau eraill fel allweddellau, recorders, iwcalilis, neu offerynnau'r plant eu hunain.

3. **Adolygwch y symudiadau llaw** heb i'r gerddoriaeth chwarae:

| **1** | 2 | 3 | **1** | 2 | 3 |
|---|---|---|---|---|---|
| **gliniau** | clap | clic | **gliniau** | clap | clic |

   Eglurwch mai curiadau 2 a 3 yw'r trawsacenion (y curiadau gwannach). Mae'r bas yn chwarae ar guriad 1 pob bar. Gwrandewch eto a sylwch ar y nodweddion hyn, naill ai heb wneud y symudiadau neu drwy ymuno yn dawel.

4. **Adolygwch yr alaw** drwy wrando a gofyn i'r plant enwi rhai o'r chwythbrennau sy'n chwarae'r dôn. All unrhyw un gofio'r math o raddfa mae'r alaw yn seiliedig arni? Graddfa bentatonig, gyda phum traw gwahanol.

5. **Mewn grwpiau, crëwch eich darn eich hun** gan ddefnyddio'r tair haen hyn o wead. Gall mwy nag un person chwarae pob rôl. Defnyddiwch yr un pum nodyn: C, D, F, G, A.

| **Grid Perfformiad:** | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **1** | *2* | *3* | **1** | *2* | *3* | **1** | *2* | *3* | **1** | *2* | *3* |
| Haen 1 - alaw | Byrfyfyrio alaw gan ddefnyddio pum nodyn y raddfa bentatonig: C, D, F, G, A. Os ewch i gors, rhowch gynnig ar rai o'r enghreifftiau isod. | | | | | | | | | | | |
| Haen 2 – trawsacenion | | A<br>F | A<br>F | | A<br>F | A<br>F | | A<br>F | A<br>F | | A<br>F | A<br>F |
| Haen 3 - llinell fas | D | | | C | | | A | | | C | | |

© BBC 2024




Gellir perfformio’r trawsacenion a llinell y bas gan ddefnyddio offerynnau taro di-draw, gyda neu yn lle offerynnau taro traw. Gall iwcalilis berfformio’r trawsacenion trwy chwarae cord D leiaf.

6. **Rhowch amser i’r grwpiau** ddatblygu eu syniadau ac ymarfer, wedyn oedwch i drafod strwythur a pherfformiad yn fyr. Dyma gwestiynau y gallech eu gofyn:
    a. *Faint o weithiau fydd eich grŵp yn chwarae’r grid perfformiad?*
    b. *Fydd pawb yn chwarae drwy’r amser? Allwch chi feddwl am ffyrdd mwy diddorol i ddefnyddio’r gwahanol haenau?*
    c. *Sut wnewch chi ddechrau a gorffen eich perfformiad?*

7. **Dewch â’r dosbarth yn ôl at ei gilydd** a chael pawb i wrando ar waith ei gilydd. Gofynnwch i weddill y dosbarth wrando’n ofalus a rhoi adborth. Dyma gwestiynau y gallech eu gofyn:
    a. Allwch chi ddweud wrthyf pwy wnaeth berfformio pa haen o wead yn y perfformiad?
    b. Sut wnaeth y grŵp ddechrau a gorffen eu perfformiad?
    c. Allwn ni deimlo’r amser 3/4? Falle y gallen ni ymuno!

8. **Adolygwch ac ymlaciwch** drwy wrando ar ‘Dawn’ eto. Gofynnwch i’r dosbarth wrando’n ofalus ar eu rhan ‘nhw’ o’r gwead a gweld a allan nhw enwi pa offerynnau sy’n chwarae eu rôl ‘nhw’.

9. **Cwis Dewisol**

| | |
|---|---|
| **Beth yw gwead mewn cerddoriaeth?** | Haenau’r gerddoriaeth (e.e. alaw, trawsacenion, llinell fas) |
| **Beth yw offerynnau traw?** | Offerynnau gyda thraw diffiniedig fel glockenspiel, seiloffon, barrau clych ac ati. |
| **Beth yw offerynnau di-draw?** | Offerynnau heb draw diffiniedig fel clafiau, castanéts, ysgytwyr, drymiau llaw ac ati. |
| **Beth yw’r llinell fas?** | Rhan isaf y wead |
| **Beth yw curiad?** | Curiad yw pỳls gwaelodol y gerddoriaeth. Mae ’na guriadau cryf a churiadau gwan. |
| **Beth yw trawsacenion?** | Y curiadau gwan mewn bar o gerddoriaeth. |

© BBC 2024

# GWERS 4

Straeon cerddorol – edrych yn ôl a symud ymlaen

| | |
|---|---|
| Bwriad dysgu: | Gweithgareddau gwrando gweithredol a thrafod<br>Cael mewnwelediad dyfnach i'r gerddoriaeth a'r stori |

1. **Dewch yn dditectif cerddorol** trwy gymryd rhan mewn bingo cerddorol! Gall y plant greu eu grid 3 x 3 eu hunain, neu dorri allan un o'r patrymluniau parod. Gallai plant chwarae ar eu pennau eu hunain neu mewn parau. Rhowch gynnig ar y gêm am y tro cyntaf cyn adolygu'r geiriau cerddorol. Gofynnwch y cwestiynau hyn mewn unrhyw drefn i greu'r gêm bingo:

    a. Sawl traw sy'n ffurfio'r raddfa bentatonig? (*5*)
    b. Sawl curiad oedd mewn bar yn y 'March'? (*4*)
    c. Sawl curiad oedd mewn bar yn 'Dawn'? (*3*)
    d. Pa chwythbren sydd wedi'i wneud o fetel, nid pren? (*ffliwt*)
    e. Pa chwythbren sydd â'r traw isaf? (*baswn)*
    f. Beth yw'r gair am haenau mewn cerddoriaeth? (*gwead*)
    g. Beth yw'r gair cerddorol am diwn? (*alaw*)
    h. Beth yw'r gair cerddorol am guriadau gwan? (*trawsacenion*)
    i. Beth yw'r gair cerddorol am ran isaf y gwead? (*llinell fas*)

2. **Gwyliwch y perfformiad cerddorfaol** a gofynnwch i'r dosbarth feddwl am y bocsys nad ydyn nhw'n siŵr amdanynt. Ar ddiwedd y perfformiad ewch drwy'r atebion cyn chwarae'r gêm eto. Gellir awgrymu atebion i fyfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd er mwyn iddyn nhw gael cymryd rhan yn y gêm.

3. **Gwyliwch y ffilm** eto ac ewch yn ôl at eich trafodaeth am Foicot Bysus Montgomery a'r syniad o brotestio. Chwaraewch berfformiad cerddorfaol 'March' a gofynnwch i'r plant feddwl am a/neu sgrifennu rhywbeth am y byd sy'n annheg neu'n anghyfiawn. Dylai pob plentyn fartsio i fyny â thraed trwm a rhoi ei eitem yn y lle dynodedig (e.e. gosod nodiadau gludiog ar fwrdd, postio cardiau mewn blwch, rhoi ymateb llafar i'r athro/athrawes).

4. **Chwaraewch y perfformiad cerddorfaol o 'Dawn'** a gofynnwch i'r plant feddwl am a/neu sgrifennu rhywbeth y maen nhw'n gobeithio amdano i'r dyfodol. Dylai pob plentyn symud yn ysgafn i'r blaen i roi ei eitem yn y lle dynodedig (e.e. hanner arall y bwrdd, postio cardiau mewn blwch arall ac ati).

5. **Sesiwn gloi olaf – democratiaeth ar waith!** Gofynnwch i'r dosbarth bleidleisio dros un cyfle olaf i fynd yn ôl at rywbeth a wnaed yn gynharach yn y prosiect. Gallai hyn

© BBC 2024

fod y ffilm, y symudiadau i un o'r amrywiadau, neu hyd yn oed wylio unrhyw recordiad rydych chi wedi'u gwneud o'u darnau nhw'u hunain!

## CAMAU PELLACH

Gweithgareddau trawsgwricwlaidd

**HANES:** Fel dosbarth, gwyliwch y fideo BBC Teach CA2 ar Rosa Parks ac mewn grwpiau llai, gofynnwch i blant ystyried cwestiynau'r fideo (atebion ar dudalen y fideo): beth oedd dyddiad safiad Rosa Parks? Lle roedd Rosa Parks yn teithio? Lle wnaeth Rosa Parks eistedd ar y bws? Beth ddigwyddodd ar ôl i Rosa Parks wrthod ildio'i sedd? Beth mae Rosa Parks yn dweud ei bod 'wedi blino' arno?

**HANES**: Fel dosbarth, dysgwch am fywyd Mary Seacole gan ddilyn Adnoddau BBC Teach CA2.

**CELFYDDYD:** Ar ôl dysgu am fywyd a hanes Mary Seacole, gall myfyrwyr ddefnyddio pensiliau lliwio i liwio llun y 'British Hotel' a ffigurau Mary Seacole yn BBC Teach.

## GEIRFA'R TERMAU CERDDOROL A DDEFNYDDIR

| TERM | DIFFINIAD |
|---|---|
| Alaw | Y dôn mewn darn o gerddoriaeth |
| Arwydd amser 3/4 | Cerddoriaeth gyda 3 churiad mewn bar (cryf-gwan-gwan) |
| Arwydd amser 4/4 | Cerddoriaeth gyda 4 curiad mewn bar (cryf-gwan-gwan-gwan) |
| Bar | Caiff curiadau eu trefnu gyda'i gilydd yn fariau. Bydd curiad cryf ar ddechrau'r bar. |
| Brawddeg | Grŵp o fariau sy'n ffurfio brawddeg gerddorol, fel arfer 2 neu 4 bar. |
| Curiad | Curiad yw pŷls gwaelodol y gerddoriaeth. Mae 'na guriadau cryf a churiadau gwan. |
| Ensemble | Grŵp o gerddorion |
| Graddfa bentatonig | Graddfa pum nodyn. Rydym wedi defnyddio C, D, F, G, A yn y prosiect hwn. |
| Gwead | Haenau'r gerddoriaeth (e.e. alaw, trawsacenion, llinell fas) |
| Llinell fas | Y rhan isaf o'r gwead |
| Offerynnau taro di-draw yr ystafell ddosbarth | Offerynnau heb draw diffiniedig fel clafiau, castanéts, ysgytwyr, drymiau llaw ac ati. |
| Offerynnau taro traw yr ystafell ddosbarth | Offerynnau gyda thraw diffiniedig fel glockenspiel, seiloffon, barrau clych ac ati. |
| Trawsacenion | Y curiadau gwan mewn bar o gerddoriaeth. |

© BBC 2024

# BINGO CERDDOROL

| | | |
|---|---|---|
| Pump | Basŵn | Gwead |
| Alaw | Pedwar | Trawsacenion |
| Tri | Ffliwt | Llinell fas |

| | | |
|---|---|---|
| Pedwar | Pump | Trawsacenion |
| Llinell Fas | Gwead | Tri |
| Ffliwt | Alaw | Basŵn |

| | | |
|---|---|---|
| Llinell fas | Ffliwt | Pump |
| Tri | Alaw | Trawsacenion |
| Basŵn | Gwead | Pedwar |

| | | |
|---|---|---|
| Basŵn | Llinell fas | Pump |
| Gwead | Tri | Pedwar |
| Ffliwt | Trawsacenion | Alaw |

| | | |
|---|---|---|
| Gwead | Pedwar | Basŵn |
| Pump | Alaw | Tri |
| Llinell fas | Trawsacenion | Ffliwt |

| | | |
|---|---|---|
| Llinell fas | Alaw | Pedwar |
| Trawsacenion | Pump | Gwead |
| Tri | Basŵn | Ffliwt |

© BBC 2024

| | | |
|---|---|---|
| Pedwar | Ffliwt | Llinell fas |
| Baswn | Trawsacenion | Pump |
| Alaw | Tri | Gwead |

| | | |
|---|---|---|
| Trawsacenion | Pedwar | Tri |
| Gwead | Baswn | Alaw |
| Pump | Ffliwt | Llinell fas |

| | | |
|---|---|---|
| Ffliwt | Gwead | Tri |
| Pedwar | Llinell fas | Baswn |
| Trawsacenion | Pump | Alaw |

| | | |
|---|---|---|
| Alaw | Baswn | Trawsacenion |
| Llinell fas | Gwead | Ffliwt |
| Tri | Pedwar | Pump |

| | | |
|---|---|---|
| Pump | Trawsacenion | Llinell fas |
| Ffliwt | Alaw | Pedwar |
| Gwead | Tri | Baswn |


| | | |
|---|---|---|
| Ffliwt | Pump | Alaw |
| Tri | Llinell fas | Gwead |
| Baswn | Pedwar | Trawsacenion |


© BBC 2024


| | |
|---|---|
| Bwriad dysgu: | Dysgu alaw y ‘March’ a’i ddefnyddio fel man cychwyn i’ch cân brotest eich hun<br>Arbrofi gyda’r raddfa bentatonig gan ddefnyddio lleisiau a/neu offerynnau taro traw yr ystafell ddosbarth |


Dyma frawddegau anghyflawn o’r gân brotest i chi eu cwblhau. Gallwch ychwanegu geiriau at y rhythmau isod i gwblhau eich brawddeg, yna ceisiwch gyfansoddi alawon gan ddefnyddio nodau’r raddfa bentatonig:




© BBC 2024